**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Dydd Mawrth, 5ed Medi, 2023, 10.00 am**

| | |
|---|---|
| **CYNGHORWYR YN BRESENNOL:** | County Councillor Tudor Thomas (Cadeirydd) |
| | Cynghorydd Sirol: Tony Easson, Christopher Edwards, Simon Howarth, Jane Lucas, Jayne McKenna, Alistair Neill, Sue Riley, Dale Rooke, Jackie Strong, Armand Watts, Malcolm Lane |

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| David Jones | Pennaeth Diogelu'r Cyhoedd |
| Linda O'Gorman | Prif Swyddog Trwyddedu |
| Emma Watkins | |
| Ben Davies | Cyfreithiwr |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol Lisa Dymock

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

2. **Cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol.**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2023 a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

3. **Gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd.**

Cafodd y wasg a'r cyhoedd eu gwahardd o gyfarfod cyn ystyried yr eitem ddilynol o fusnes yn unol ag Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1962, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei fod yn golygu datgeliad tebygol ar wybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

4. **Ystyried a yw'r gyrrwr yn "Gymwys a Phriodol" i barhau i feddu ar Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hackney/Hurio Preifat. Ystyried a ddylai'r Gweithredwr Hurio Preifat trwyddedig barhau i feddu ar drwydded o'r fath.**

Croesawodd y Cadeirydd y gyrrwr i'r cyfarfod a chyflwynodd Aelodau o'r Pwyllgorau a Swyddogion oedd yn bresennol ac esbonio'r protocol ar gyfer y cyfarfod.

Cadarnhaodd y gyrrwr ei enw a chyfeiriad i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd dderbyn yr adroddiad a chydnabod y byddai'n symud ymlaen heb gynrychiolaeth gyfreithiol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Trwyddedu a Rheleiddio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga**
**Dydd Mawrth, 5ed Medi, 2023, 10.00 am**

Cafodd y materion a manylion allweddol eu darllen yn uchel i'r Pwyllgor.

Wedyn rhoddwyd cyfle i'r gyrrwr annerch y Pwyllgor i gyflwyno unrhyw esboniadau perthnasol. Yn dilyn hyn, cyflwynodd Aelodau'r Pwyllgor gwestiynau i'r gyrrwr a dilynodd trafodaeth. Cafodd y gyrrwr wedyn i grynhoi.

Yn dilyn cwestiynau, gadawodd swyddogion a'r gyrrwr y cyfarfod i roi cyfle i'r Pwyllgor i ystyried a thrafod y canfyddiadau.

Pan ailddechreuodd y cyfarfod, hysbysodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi ystyried y materion ac wedi penderfynu:

i) nad oedd y gyrrwr yn berson cymwys a phriodol i barhau i gadw Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni / Hurio Preifat;

ii) diddymu trwydded Gweithredudd Hurio Preifat.

**5. <u>Cadarnhau dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Mawrth 17 Hydref 2023 am 10.00am.